



Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynigion ffioedd rheoleiddio

ar gyfer Ebrill 2027/28

Dyddiedig: Hydref 2026

Cynnwys

Cynnwys	2
Rhannu eich barn ar y ffioedd rheoleiddio arfaethedig	2
Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru.....	2
Diogelu amgylchedd Cymru.....	3
Ariannu gwaith rheoleiddio amgylcheddol yn gyfrifol ac yn deg	4
Adolygiad blynyddol o ffioedd ar gyfer 2027/28	5
Fffioedd rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2027/28	6
Rheoli diffygion a ragwelir ac adolygiadau codi tâl yn y dyfodol	6
Y gyfradd ar gyfer cyngor anstatudol ym maes trwyddedu morol	8
Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK-ETS) – newidiadau technegol	9
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	9
Beth sy'n digwydd i'ch ymateb	10
Y camau nesaf.....	10

Rhannu eich barn ar y ffioedd rheoleiddio arfaethedig

Rydym am glywed eich barn ar ein newidiadau arfaethedig i'n ffioedd rheoleiddio. Bydd eich adborth yn ein helpu i sicrhau bod ein cynigion yn deg, yn dryloyw ac yn effeithiol.

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn ystyried eich adborth cyn cwblhau ein cynllun codi tâl arfaethedig a cheisio cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru. Yn amodol ar y gymeradwyaeth hon, bydd y ffioedd newydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2027.

Agorodd yr ymgynghoriad hwn ddydd Mercher 14 Hydref 2026, a daw i ben am 11.59pm ddydd Llun, 11 Ionawr 2027.

Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein diben yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd, er mwyn gwella llesiant a darparu dyfodol gwell i bawb yng Nghymru.

Credwn y dylid defnyddio adnoddau naturiol yn gyfrifol, mewn ffordd ac ar raddfa sy'n cryfhau gwydnwch ein hecosystemau a'r buddion maent yn eu darparu, gan ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan [ein cynllun corfforaethol hyd at 2030: 'Byd Natur a Phobl yn Ffynnu gyda'n Gilydd'](#).

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar dair prif thema:

1. Cefnogi adferiad byd natur

Mae adfer byd natur yn ymdrech hirdymor. Rydym wedi dechrau gweld cynnydd cynnar, ond rydym yn dal i fod ar ddechrau taith llawer yn fwy.

2. Datblygu'r gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

Mae adeiladu gwydnwch i effeithiau newid hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Cymru ac rydym yn gwneud hyn drwy ehangu atebion ar sail natur, cefnogi ynni adnewyddadwy, a helpu diwydiant i leihau allyriadau, i gyd wedi'i ategu gan dystiolaeth gryfach a ffyrdd gwell o weithio.

3. Lleihau llygredd hyd yr eithaf

Mae lleihau llygredd ac atal niwed amgylcheddol yn her hirdymor sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru. Mae'n allweddol i wella ansawdd ein hamgylchedd a chefnogi iechyd pobl a natur.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, rhoddir blaenoriaeth i weithredu ar raddfa fwy i ymdrin â newid hinsawdd ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r ddarpariaeth o atebion ar sail natur ar draws amgylcheddau mawndir, morol, arfordirol a dalgylch a chryfhau perfformiad a chyrhaeddiad gwasanaethau rhybuddio am lifogydd. Bydd gwaith hefyd yn parhau i gefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a galluogi cymhwyso technolegau carbon isel yn ehangach trwy ganllawiau mwy clir a phrosesau rheoleiddio gwell.

Diogelu amgylchedd Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn chwarae rhan hanfodol wrth amddiffyn amgylchedd Cymru ac atal niwed i'n hamgylchedd er budd ein cymunedau, busnesau a chenedlaethau'r dyfodol. Wrth i'r pwysau o ganlyniad i newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth gynyddu, mae diogelu ein hamgylchedd yn dod yn bwysicach ac yn fwy cymhleth.

Mae ein gwasanaethau rheoleiddio yn darparu sylfaen sy'n atal niwed amgylcheddol ac yn sicrhau maes chwarae teg i fusnesau. Mae rheoleiddio effeithiol yn helpu i sicrhau nad yw busnesau sy'n dilyn y rheolau yn cael eu rhoi dan anfantais gan y rhai sy'n gweithredu'n anghyfreithlon.

Rydym yn asesu ac yn penderfynu ar geisiadau am drwyddedau ac yn gosod amodau i ddiogelu'r amgylchedd. Rydym hefyd yn monitro gweithgareddau i wneud yn siŵr bod deddfau a safonau amgylcheddol yn cael eu dilyn. Mae'r gweithgareddau hyn yn ein helpu i amddiffyn a chynnal amgylchedd cynaliadwy o ansawdd uchel. Mae ein penderfyniadau wedi'u llywio gan dystiolaeth ac yn cefnogi ein hymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd.

Rydym yn canolbwyntio ein gwaith rheoleiddio ar y gweithgareddau a'r lleoliadau sy'n cyflwyno'r risg fwyaf i'r amgylchedd. Rydym yn monitro'r rhai rydym yn eu rheoleiddio i wneud yn siŵr eu bod yn bodloni amodau eu trwyddedau ac yn cynnal gwaith cydymffurfedd lle bo angen. Fel arfer, ariennir y gwaith hwn drwy ffioedd rheolaidd blyneddol.

Lle byddwn yn nodi diffyg cydymffurfiaeth, gallwn gymryd ystod o gamau gweithredu i sicrhau bod y rhai rydym yn eu rheoleiddio yn cydymffurfio eto. Lle bo angen a'i fod yn gymesur, efallai y byddwn hefyd yn cymryd camau gorfodi, gan gynnwys erlyn.

Drwy wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chynnal gwaith rheoleiddio rhagweithiol, rydym yn gweithio i greu amgylchedd teg, gwydn a ffyniannus i Gymru, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ariannu gwaith rheoleiddio amgylcheddol yn gyfrifol ac yn deg

Mae ein gwaith rheoleiddio yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o grantiau gan Lywodraeth Cymru, a elwir yn gymorth grant, a thaliadau a godir ar y rhai rydym yn eu rheoleiddio lle mae deddfwriaeth yn caniatáu inni godi tâl.


Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*,² a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i CNC eu dilyn wrth reoli cyllid ac adennill costau ein gwasanaethau. Lle bo modd, ein nod yw adennill costau llawn ein gwasanaethau rheoleiddio drwy daliadau a delir gan y rhai rydym yn eu rheoleiddio, yn hytrach na thrwy drethi cyffredinol. Dim ond i ariannu'r gwasanaeth rheoleiddio y mae'r tâl yn ymwneud ag ef y gellir defnyddio'r incwm a ddaw i law o'r ffioedd hyn.

Mae ffioedd rheoleiddio yn cyfrif am oddeutu 15% o gyfanswm ein cyllid ar gyfer 2026/27. Mae manylion ein cynlluniau codi tâl cyfredol ar gael ar ein gwefan.¹

¹ Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein taliadau

² [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#)

Ffigur 1 – Dadansoddiad o gyllideb £321 miliwn CNC ar gyfer 2026/27



Adolygiad blynyddol o ffioedd ar gyfer 2027/28

Ar gyfer 2027/28, rydym yn ymgynghori ar newidiadau i'n ffioedd i adlewyrchu costau cynyddol ac i fynd i'r afael â diffygion mewn meysydd lle nad yw taliadau ar hyn o bryd yn adennill costau llawn darparu'r gwasanaeth rheoleiddio. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ein cynlluniau codi tâl a'n ffioedd yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol.

Rydym yn cynnal adolygiad ehangach o ffioedd rheolaidd (cydymffurfedd blynyddol). Bydd hyn yn edrych ar gost darparu ein gwasanaethau rheoleiddio, ac a yw ein ffioedd yn adennill y costau hynny'n briodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gennym gyllid cynaliadwy i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio. Rydym wedi dechrau rhaglen waith a fydd yn cynnal adolygiadau manwl o ffioedd rheolaidd ym maes ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, byddwn yn symud ymlaen i adolygu ffioedd rheolaidd ar gyfer rheoleiddio diwydiant a gwastraff.

Yn ogystal ag adolygu ein ffioedd rheolaidd, rydym yn edrych yn ehangach ar ein dull codi tâl. Mae hyn yn cynnwys ystyried a ddylid codi tâl am rai gweithgareddau gorfodi lle mae newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth, megis Rheoliadau Deddf Dŵr (Mesurau Arbennig), yn caniatáu inni wneud hynny.

Rydym yn parhau i wella ein gwasanaethau rheoleiddio i'w gwneud yn haws eu defnyddio ac yn fwy effeithlon i'w cyflawni. Yn 2026, fe wnaethom lansio gwasanaeth trwyddedu morol newydd ar-lein fel rhan o'n huchelgais ehangach i wella ein gwasanaethau digidol.

Mae'r gwasanaeth ar-lein yn caniatáu i ddefnyddwyr greu cyfrif, cyflwyno a thalu am geisiadau, olrhain eu cynnydd, a gweld dogfennau trwydded, i gyd mewn un man.

Byddwn yn parhau i nodi gwelliannau yn seiliedig ar adborth gan bobl sy'n defnyddio ac yn darparu ein gwasanaethau. Byddwn hefyd yn edrych ar gyfleoedd i gyflwyno gwelliannau tebyg ar draws gwasanaethau rheoleiddio eraill yn y dyfodol.

Mae'r cynigion ar gyfer adolygiad 2027/28 wedi'u harwain gan ein hegwyddorion codi tâl:

- **Adennill costau'n llawn** – Mae'r ffioedd yn adlewyrchu'r gost lawn ar gyfer darparu ein gwasanaethau, gan gynnwys ceisiadau am drwyddedau a gwaith parhaus (ffioedd rheolaidd am asesiadau cydymffurfedd blynyddol ac ati).
- **Tryloywder** – Rydym wedi bod yn dryloyw yn y ffordd rydym wedi gwneud ein penderfyniadau codi tâl.
- **Dim croes-gymorthdal** – Mae pob system reoleiddio yn cael ei hariannu gan ei ffioedd ei hun, gan gynnwys tegwch ar draws sectorau.
- **Cymorth ar gyfer cynllunio hirdymor** – Lle bynnag y bo modd, rydym yn cefnogi cynllunio hirdymor, gan ddarparu gwydnwch ar gyfer y dyfodol a sicrwydd i'r rhai sy'n gwneud taliadau.
- **Rheolaeth ariannol gytbwys** – Rydym yn rheoli gwargedion a diffygion yn weithredol er mwyn osgoi amrywiadau sydyn o ran ffioedd.
- **Effeithlonrwydd** – Mae ffocws parhaus ar brosesau symlach i helpu i gadw ffioedd mor isel â phosibl.
- **Dull nid-er-elw** – Nid ydym yn cynhyrchu elw oddi wrth y rhai sy'n gwneud taliadau.
- **Yn annibynnol o gymorthdaliadau trethdalwyr ac yn seiliedig ar egwyddorion 'y llygrwr sy'n talu'** – Nod ein model ariannu yw lleihau dibyniaeth ar arian cyhoeddus.

Ffioedd rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2027/28

Rheoli diffygion a ragwelir ac adolygiadau codi tâl yn y dyfodol

O 1 Ebrill 2027 ymlaen, rydym yn cynnig cadw ein ffioedd rheoleiddio ar eu lefelau presennol lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, bydd angen i rai newid i adlewyrchu costau cynyddol ac i sicrhau bod cyfundrefnau rheoleiddio yn adennill costau darparu'r gwasanaethau hynny.

Mae ein hadolygiad blynyddol parhaus o ffioedd wedi tynnu sylw at y meysydd canlynol lle mae angen i ni newid ein ffioedd ar gyfer 2027/28:

Ffioedd trwyddedu (gwneud cais)

Rydym yn cynnig **cynnydd o +3.5%** yn y meysydd trwyddedu canlynol yn unol â chwyddiant a phwysau costau eraill:

- Adnoddau dŵr (tynnu a chronni dŵr)
- Gosodiadau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys y Gyfarwydddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig a generaduron penodedig)
- Gwastraff o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Ansawdd dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys Deddf y Diwydiant Dŵr)
- Deunyddiau anniwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Diogelwch cronfeydd dŵr

Bydd ffioedd trwyddedu (gwneud cais) nad ydynt wedi'u rhestru uchod yn aros yr un fath ar gyfer 2027/28.

Ffioedd rheolaidd blynyddol (gweithgareddau cydymffurfedd)

Rydym yn cynnig cynnydd o +3.5% yn y meysydd canlynol yn unol â chwyddiant a phwysau cost eraill:

- Gwastraff o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Diogelwch cronfeydd dŵr
- Trwyddedau gweithgareddau perygl llifogydd

Rydym yn cynnig gostyngiad o 5% yn y meysydd canlynol:

- Gwastraff peryglus

Ffioedd rheolaidd blynyddol (gweithgareddau cydymffurfedd ariannu) lle mae diffyg

Rydym wedi dechrau adolygiad llawn o ffioedd rheolaidd ym meysydd ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn edrych ar effeithlonrwydd ein gwasanaethau, sut y gellid eu darparu yn y dyfodol, a lefel y gwasanaeth a ddarparwn. Ein nod yw ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig o fis Hydref 2027 ymlaen.

Bydd adolygiadau o ffioedd rheolaidd ym meysydd rheoleiddio diwydiant a gwastraff yn dilyn.

Ochr yn ochr â'r adolygiadau hyn, byddwn yn edrych ar ein dull o orfodi ac a ddylem gyflwyno ffioedd am rai gweithgareddau gorfodi lle mae newidiadau i ddeddfwriaeth yn caniatáu inni wneud hynny – er enghraifft, o dan y Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig).

Rydym yn parhau i wella effeithlonrwydd ein gwasanaethau rheoleiddio wrth sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau a dyletswyddau cyfreithiol CNC y cytunwyd arnynt.

Fodd bynnag, nid yw rhai cyfundrefnau rheoleiddio yn adennill costau llawn y gwasanaethau a ddarparwn ar hyn o bryd. Mae costau cynyddol, gan gynnwys chwyddiant, yn cynyddu'r diffygion ariannu hyn.

Ar gyfer 2027/28, rydym yn cynnig cyfyngu cynnydd yn y meysydd hyn i 8.5%. Mae hyn yn cydbwysu'r angen i symud tuag at adennill costau llawn â'n nod o osgoi newidiadau sylweddol i ffioedd o flwyddyn i flwyddyn. O ganlyniad, bydd rhai cynlluniau'n cymryd sawl blwyddyn i adennill eu costau'n llawn.

Ar gyfer adnoddau dŵr, mae'r cynnydd arfaethedig hefyd yn adlewyrchu'r costau parhaus sylweddol sy'n gysylltiedig â Rhaglen Diogelwch Argaeau Dŵr Cymru, gan gynnwys y gost flynyddol i CNC o gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr o dan adran 20.

Rydym yn disgwyl i'r pwysau ariannu hyn barhau nes bod ein hadolygiadau manwl o ffioedd rheolaidd wedi'u cwblhau.

Ar gyfer 2027/28, rydym yn cynnig y newidiadau canlynol i'n ffioedd i'n helpu i gynnal ein lefelau gwasanaeth presennol:

- Ffioedd uned safonol adnoddau dŵr – rydym yn cynnig cynyddu'r ffi uned safonol +8.5%.
- Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) – rydym yn cynnig cynnydd o +8.5%.
- Deunyddiau anniwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – rydym yn cynnig cynnydd o +8.5%.
- Cyfleusterau ailgylchu deunyddiau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – rydym yn cynnig cynnydd o +8.5%.
- Cludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff sy'n destun y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – rydym yn cynnig cynnydd o +8.5%.

Y gyfradd ar gyfer cyngor anstatudol ym maes trwyddedu morol

Gosodwyd ffioedd trwyddedu morol yn 2017. Ers hynny, rydym wedi codi £120 yr awr am gyngor pwrpasol a ddarperir gan y Tîm Trwyddedu Morol. Sefydlwyd y gyfradd hon i dalu cost y gwaith a ddarparwyd ar yr adeg honno ar gyfer y ffioedd, fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth. Dyma fu'r gyfradd ar gyfer cyngor statudol ac anstatudol a ddarperir i gwsmeriaid ers hynny.

Mae ein timau cynghori morol yn codi £125 yr awr ynghyd â TAW am eu cyngor yn ôl disgrisiwn. Dros amser, mae'r cyngor anstatudol a ddarperir gan y Tîm Trwyddedu Morol

wedi dod yn fwy cymhleth ac mae bellach yn cael ei ystyried yn wasanaeth cystadleuol. Felly mae'n destun TAW fel gwasanaeth yn ôl disgresiwn.

O 1 Ebrill 2027 ymlaen, rydym yn cynnig codi £125 yr awr ynghyd â TAW am gyngor anstatudol yn unol â'n gwasanaethau eraill. Byddwn yn parhau i ddarparu hyd at ddwy awr o gyngor cyn ymgeisio am ddim. Bydd ffioedd am gyngor statudol yn parhau fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth gyfredol.

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK-ETS) – newidiadau technegol

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK-ETS) yn rhan sylweddol o strategaeth ddatgarboneiddio Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae newidiadau i'r cynllun wedi cynyddu'r gwaith y mae angen i CNC ei wneud. Rydym yn cynnig newidiadau i'n ffioedd i adlewyrchu cost y gwaith hwn.

Y sector hedfan

Rydym yn cynnig cyflwyno ein cyfradd safonol fesul awr o £125 yr awr ar gyfer gwaith rheoleiddio o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y sector hedfanaeth o 1 Ebrill 2027. Bydd hyn yn disodli'r ffioedd sefydlog presennol nad ydynt yn talu costau llawn darparu'r gwasanaeth.

Er nad yw CNC ar hyn o bryd yn rheoleiddio unrhyw weithredwyr sector hedfan a fyddai'n cael eu heffeithio gan y tâl hwn, bydd cyflwyno'r gyfradd fesul awr yn sicrhau y gallwn adennill ein costau os bydd gweithredwyr newydd yn ymuno â'r cynllun.

Y sector gwastraff

Cafodd ehangiad o Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU ei lansio ym mis Ionawr 2026 ac mae bellach yn cynnwys llosgi gwastraff ac ynni o weithfeydd gwastraff.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei ariannu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, ac nid ydym yn cynnig cyflwyno tâl ar yr adeg hon.

Y sector morwrol

Ehangwyd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gynnwys gweithgareddau morwrol domestig o **1 Gorffennaf 2026**. Rydym yn cynnig cyflwyno ein cyfradd safonol fesul awr o **£125 yr awr** ar gyfer gwaith rheoleiddio CNC o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn y sector morwrol.

Ar hyn o bryd, nid yw CNC yn rheoleiddio unrhyw weithredwyr morwrol a fyddai'n cael eu heffeithio gan y tâl hwn. Fodd bynnag, bydd cyflwyno'r gyfradd fesul awr yn sicrhau y gallwn adennill ein costau os daw gweithredwyr o fewn ein cylch gwaith rheoleiddio.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Rydym am glywed eich barn ar ein ffioedd rheoleiddio arfaethedig, a fyddai'n dod i rym o 1 Ebrill 2027. Bydd eich adborth yn ein helpu i gwblhau ein cynlluniau codi tâl cyn i ni eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo.

Mae'r ymgynghoriad yn cau am 11.59pm ddydd Llun 11 Ionawr 2027. Gallwch ddweud eich dweud drwy ymweld â'n tudalen ymgynghori:

Beth sy'n digwydd i'ch ymateb

Bydd staff CNC sy'n gweithio ar yr ymgynghoriad hwn yn adolygu'r ymatebion a ddaw i law. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu ymatebion o fewn CNC i'n helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Byddwn yn dadansoddi'r ymatebion ac yn cyhoeddi crynodeb o'r hyn a glywsom. Os byddwch chi yn ymateb drwy e-bost neu drwy'r post, efallai y byddwn yn cyhoeddi eich ymateb yn llawn.

Pan fyddwn yn cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y byddwn yn cynnwys eich enw a rhan o'ch cyfeiriad. Os nad ydych chi eisiau i'r manylion hyn gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch ymateb a byddwn ni'n eu tynnu o'r wybodaeth a gyhoeddir.

Mae CNC yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae hyn yn golygu y gall aelodau'r cyhoedd ofyn am yr wybodaeth sydd gennym. Bydd unrhyw gais am wybodaeth bersonol yn cael ei ystyried yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a gofynion diogelu data.

Y camau nesaf

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn adolygu'r adborth a ddaw i law ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â'n hymateb ni, ar ein gwefan.

Os byddwch yn darparu cyfeiriad e-bost wrth ymateb i'r ymgynghoriad, byddwn yn cadarnhau ein bod wedi cael eich ymateb ac yn rhoi gwybod i chi pan fydd crynodeb yr ymgynghoriad ar gael.

Byddwn yn ystyried yr adborth cyn cwblhau ein cynigion a cheisio cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru. Yn amodol ar y gymeradwyaeth hon, ein nod yw cyflwyno'r cynlluniau codi tâl wedi'u diweddarau o 1 Ebrill 2027.